

## Tasg 4

(Heriol, sbardun 2)

Mae llawer o ferfau amhersonol cryno yn y darnau darllen. Rhowch eu ffurf hir.

Cryno	Hir
Penderfynir	Mae'n cael ei benderfynu pa stormydd sydd wedi bod yn drychinebus yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.
Cyflwynwyd	Cafodd yr egwyddor ei chyflwyno...

Ysgrifennwch adroddiad swyddogol ar y difrod gafodd ei wneud gan stormydd categorïau 4 a 5.

Defnyddiwch:

- y wybodaeth sydd yn y tabl
- berfau amhersonol

Dyma enghraifft o adroddiad ar storm categori 3:

*Cafwyd gwyntoedd o 111 – 130 mya a gwnaethpwyd cryn dipyn o ddifrod. Chwalwyd adeiladau bychain a gorlifwyd ffyrdd.*